
# Cynllun Corfforaethol 2016 - 2020

## Ein Blaenoriaethau




# Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

# Gweithio Gyda'n Gilydd i Wella Bywydau

# Cyflwyniad

Mae’r Cyngor hwn mewn sefyllfa unigryw i ddod â’i wasanaethau ynghyd gyda gwaith asiantaethau eraill, cymunedau, teuluoedd ac unigolion er budd pobl y Sir. Nid yw hyn yn ddim byd newydd.

Fodd bynnag, mae’r byd yn newid yn gyflym, a dyna pam ein bod wedi llunio’r ddogfen hon – ein Cynllun Corfforaethol newydd. Mae’n nodi sut y bydd y Cyngor yn newid a beth fydd ei ffocws dros y pedair blynedd nesaf.

Rydym yn cydnabod y bydd yn rhaid i ni wneud newidiadau sylweddol i’r ffordd yr ydym yn meddwl ac yn gweithredu er mwyn ymateb i’r heriau sylweddol a wynebir gan ein cymunedau – yn anad dim y galwadau cynyddol ar lawer o’n gwasanaethau, yn erbyn cefndir o gyllideb sy’n crebachu.

Er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn canolbwyntio ar y meysydd cywir, yn ddiweddar fe ymgynghoron ni â’n dinasyddion ynghylch ein blaenoriaethau arfaethedig a’r gostyngiadau arfaethedig i’n cyllideb. Trwy ddefnyddio ystod o ddulliau, cafwyd 1,819 o ymatebion i’r ymgynghoriad (1.3% o’r boblogaeth), yr ystyrir o safbwynt ystadegol ei fod yn faint sampl dilys. Roedd dros 80% o’r ymatebwyr yn cytuno ein bod wedi dewis y blaenoriaethau cywir i gyflawni’r newidiadau angenrheidiol. Darparodd ymatebwyr ystod o awgrymiadau eraill hefyd sydd wedi cael eu hystyried wrth ddatblygu’r Cynllun Corfforaethol.

Mae trefn llywodraeth leol yng Nghymru yn y dyfodol yn dal i fod yn ansicr, ond byddwn yn cadw ein ffocws ar yr hyn y mae ar ein dinasyddion ym Mhen-y-bont ar Ogwr ei angen.

**Mae gennym weledigaeth glir a syml ar gyfer y Cyngor hwn, sef gweithredu bob amser fel ‘Un Cyngor yn gweithio gyda’n gilydd i wella bywydau’.**

Mae hyn yn golygu y byddwn yn dod yn awdurdod llai, mwy hyblyg sy’n gweithio gyda phartneriaid a chymunedau lleol i greu dyfodol lle mae gan drigolion fynediad at wasanaeth mwy ymatebol ac sydd wedi’i deilwra’n fwy. Bydd hefyd yn golygu bod trigolion yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am wneud i hynny ddigwydd, er eu mwyn hwy eu hunain ac er mwyn y gymuned gyfan.

Mae **Ein Gwerthoedd** yn dal heb newid. Mae’r rhain yn cynrychioli’r hyn y mae’r Cyngor yn sefyll drosto ac yn dylanwadu ar y ffordd yr ydym yn gweithio:

- **G**weithio mewn modd teg – gan ystyried anghenion a sefyllfaoedd pawb
- **W**astad yn uchelgeisiol – yn ceisio gwella’r hyn a wnawn ac yn anelu at ragoriaeth
- **E**r lles ein cwsmeriaid – eu gwneud yn ganolog a chofio ein bod yma i wasanaethu ein cymunedau lleol
- **Dd**ydd ar ôl dydd, yn effeithlon – trwy ddarparu gwasanaethau sy’n rhoi gwerth am arian

Wrth ddatblygu’r Cynllun Corfforaethol newydd hwn rydym wedi adnabod **Ein Hegwyddorion**. Datblygwyd y rhain er mwyn helpu i lywio’r Cyngor tuag at ddod y math o sefydliad y mae angen iddo fod er mwyn ymateb i heriau newydd:

- Lle bynnag y bo’n bosibl bydd y Cyngor yn cynorthwyo cymunedau a phobl i greu eu datrysiadau eu hunain a lleihau dibyniaeth ar y Cyngor.
- Bydd y Cyngor yn canolbwyntio adnoddau sy’n mynd yn llai ar y cymunedau a’r unigolion â’r anghenion mwyaf.
- Bydd y Cyngor yn defnyddio gwybodaeth dda gan ddefnyddwyr gwasanaethau a chymunedau i oleuo’i benderfyniadau.
- Bydd y Cyngor yn ysgogi ac yn datblygu gallu ymhlith y trydydd sector i adnabod anghenion lleol ac ymateb iddynt.

- Ni fydd y Cyngor yn gadael i ansicrwydd ynghylch dyfodol gwasanaethau cyhoeddus atal cydweithio ystyrlon a phragmatig gyda chyrff eraill yn y sector cyhoeddus.
- Bydd y Cyngor yn gweithio fel un Cyngor ac yn annog gwahanol rannau o'r sefydliad i beidio â datblygu prosesau lluosog neu ddulliau sy'n wahanol heb fod angen.
- Bydd y Cyngor yn trawsnewid y sefydliad a llawer o'i wasanaethau ac wrth wneud hynny bydd yn dwyn gostyngiadau yn y gyllideb ariannol yn ogystal â gwelliannau.

Mae'r egwyddorion hyn yn amlygu pwysigrwydd sefydliadau eraill i ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion lleol. Mae gan y Cyngor hanes o gydweithio gyda'r trydydd sector, y sector dielw a'r sector preifat, y maent ill tri eisoes yn darparu rhai gwasanaethau ar ran y Cyngor. Yn ein harolwg diweddar, 'Llunio Dyfodol Pen-y-bont ar Ogwr', roedd dros dri chwarter yr ymatebwyr yn cytuno y dylai rhai o wasanaethau'r Cyngor gael eu darparu gan sefydliadau heblaw'r Cyngor. Byddwn yn parhau i adeiladu ar y dull hwn trwy gydol oes y cynllun hwn.

Mae'r egwyddorion hyn, ynghyd â gwerthoedd y Cyngor, yn cefnogi egwyddor datblygu cynaliadwy a ddiffinnir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae a wnelo datblygu cynaliadwy â gwella'r ffordd y gallwn gyflawni ein llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol trwy ganolbwyntio ar y tymor hir, atal, integreiddio, cydweithio a chynnwys pobl. Bydd yn tanategu popeth a wnawn ac yn ein helpu i wneud y fwrdeistref sirol yn lle da i bobl fyw, gweithio, astudio a dod ar ymweliad.

Bydd y camau gweithredu a nodir yn y cynllun corfforaethol hwn yn cyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol, sydd hefyd wedi'u diffinio gan Lywodraeth Cymru yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ond rydym wedi nodi tri chanlyniad yn benodol y byddwn yn canolbwyntio arnynt dros y pedair blynedd nesaf. Mae'r canlyniadau hyn wedi'u bwriadu i wella ansawdd bywyd pobl yn y sir gan newid natur y Cyngor yn sylweddol:

| **Cefnogi economi lwyddiannus** | **Helpu pobl i ddod yn fwy hunanddibynnol** | **Defnyddio adnoddau'n ddoethach** |
|---|---|---|
| Economi lwyddiannus, gynaliadwy a chynhwysol a fydd yn cael ei chefnogi gan weithlu medrus, uchelgeisiol. | Unigolion a theuluoedd a fydd yn fwy annibynnol ac yn llai dibynnol ar wasanaethau traddodiadol y Cyngor. | Cyngor sydd â phrosesau darbodus, cadarn a gweithlu medrus. Trydydd sector/sector cymunedol a gefnogir ac sydd â chyfle i ysgwyddo'r cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion dinasyddion. |

**Strategaeth Ariannol Tymor Canolig**

Yn 2016-17 bydd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gyllideb refeniw gros o oddeutu £390 miliwn a rhaglen gyfalaf o oddeutu £162 miliwn (dros y deng mlynedd nesaf) i gefnogi ein busnes craidd a'r blaenoriaethau corfforaethol a nodir yn y cynllun hwn. Daw tua £67 miliwn o'n cyllideb o'r Dreth Gyngor. Daw'r gweddill o grantiau'r Llywodraeth ac incwm arall. Dros y pedair blynedd nesaf rydym yn disgwyl i'r cyllid yr ydym yn ei gael gan Lywodraeth Cymru grebachu. Bydd angen inni ymdrin â'r diffyg trwy ostyngiadau yn y gyllideb a chynnydd yn y Dreth Gyngor ac mewn incwm arall i leihau i'r eithaf yr effaith ar wasanaethau craidd a'n blaenoriaethau. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys enghreifftiau o'r modd y byddwn yn defnyddio ein cyllid i gefnogi ein blaenoriaethau. Mae hefyd yn darparu amlinelliad o'n cynllun gwariant, a ddangosir mewn atodiad. Gellir gweld ein Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn www.bridgend.gov.uk.

**Diogelu**

Mae diogelu plant ac oedolion agored i niwed yn fater y mae'r Cyngor yn ei gymryd yn wirioneddol o ddifrif. Mae ein gwasanaethau gofal cymdeithasol yn mynd i'r afael â diogelu fel busnes craidd, wrth gwrs, ond rydym hefyd yn sicrhau bod ystyriaethau diogelu'n dylanwadu ar yr holl wasanaethau ac rydym yn cyflawni rôl arweiniol gyda phartneriaid yn y sir. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys datblygu Canolbwynt Diogelu Amlasiantaeth fel cam sylweddol ymlaen a chaiff manylion pellach am fesurau diogelu eraill eu hamlygu yng nghynlluniau busnes cyfarwyddiaethau.

**Gwasanaethau pwysig eraill**

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn canolbwyntio ar feysydd allweddol yr ydym yn dymuno'u newid. Fodd bynnag, mae gennym lawer o wasanaethau craidd a statudol eraill a fydd yn parhau i gael ein sylw. Mae hyn yn cynnwys ein gwaith fel awdurdod cynllunio, cynnal a chadw priffyrdd a chludiant cyhoeddus, casglu gwastraff, glanhau strydoedd, refeniwiau a budd-daliadau, gwarchod y cyhoedd, a chwaraeon, y celfyddydau a llyfrgelloedd trwy ein partneriaid HALO ac Awen. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr. Ceir mwy o wybodaeth am ein cynlluniau ar gyfer y rhain a gwasanaethau eraill yn y cynlluniau busnes mwy manwl sydd i'w cael yma.

Mae gwella cyrhaeddiad addysgol yn dal i fod yn bwysig iawn inni. Yn y cynllun hwn mae gwelliant parhaus yn y maes hwn yn rhan o amcan ehangach i wella sgiliau a chyrhaeddiad yn fwy cyffredinol. Mae hon yn rhan bwysig y gallwn ni ei chwarae i gefnogi economi lwyddiannus. Yn y Cynllun Corfforaethol hwn rydym yn amlygu'n arbennig ein hymrwymiad i gau'r bwlch mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion nad ydynt yn gymwys. Bydd cynllun busnes y gyfarwyddiaeth yn nodi mwy o fanylion o ran sut y byddwn yn cyflawni'r gwelliannau hyn yr ydym yn ymrwymedig iddynt.

**Sut y byddwn yn cyflawni'r cynllun hwn**

- Rhaglen Drawsnewid y Cyngor. Rydym wedi cychwyn ar raglen o newidiadau allweddol i wasanaethau a fydd yn helpu i wireddu'r cynllun hwn.
- Rheolaeth ariannol gref. Caiff y cynllun hwn ei ategu gan ein Strategaeth Ariannol Tymor Canolig i sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o'n hadnoddau sy'n crebachu. Mae'n rhaid inni gyflawni gostyngiadau o fwy na £36 miliwn yn y gyllideb erbyn 2020. Ceir graffiau sy'n dangos o ble y daw ein harian, a sut y byddwn yn ei wario, ar ddiwedd y cynllun hwn.
- Trefniadau rheoli perfformiad cryf. Rydym yn rheoli ein perfformiad yn fanwl ac yn monitro'r cynnydd yn rheolaidd er mwyn inni allu dyrannu ein hadnoddau'n effeithiol a darparu'r gwasanaethau gorau posibl ar gyfer ein dinasyddion.
- Cynlluniau busnes a chynlluniau gwasanaethau. Caiff y blaenoriaethau yn y cynllun hwn eu cyflawni trwy gamau gweithredu a mesurau a nodir yng nghynllun pob cyfarwyddiaeth/gwasanaeth a chynlluniau perfformiad aelodau unigol o staff.

Byddwn yn adrodd ar gynnydd trwy ein Hadroddiad Blynyddol. Mae ein hadroddiadau blynyddol ar gael ar y wefan www.bridgend.gov.uk.

Bydd y cynllun hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n flynyddol.

**Eich sylwadau chi**

Rydym yn parhau i groesawu eich sylwadau chi ar y cynllun hwn. Bydd eich adborth yn cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad blynyddol ac fe'i croesewir bob amser. Gallwch ei roi inni trwy ein gwefan: www.bridgend.gov.uk; trwy Twitter: @BridgendCBC; trwy'r e-bost i improvement@bridgend.gov.uk; neu drwy ysgrifennu at y Tîm Perfformiad Corfforaethol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB.



Y Cynghorydd Mel Nott
OBE
Arweinydd y Cyngor



Darren Mepham
Prif Weithredwr

# Blaenoriaeth Un – Cefnogi economi lwyddiannus

Mae hyn yn golygu y byddwn yn cymryd camau i wneud y sir yn lle da i gynnal busnes, i bobl fyw, gweithio, astudio a dod ar ymweliad, ac i sicrhau bod ein hysgolion yn canolbwyntio ar wella sgiliau, cymwysterau ac uchelgeisiau pawb yn y sir.

## Pam fod hyn yn bwysig?

Os oes gennym economi gref, bydd pobl leol yn cael mwy o gyfleoedd i sicrhau swydd, datblygu gyrfa a gwella eu hincwm ac amgylchiadau teuluol. Gall lefelau tlodi is hybu iechyd a llesiant a chreu cymunedau mwy cydnerth ac arnynt angen llai o wasanaethau. Rydym am i ganol ein trefi a'n busnesau greu cyfoeth, darparu swyddi, denu buddsoddiadau, gwella sgiliau ac annog pobl i ymweld â'r sir. Pan ymgynghorwyd â hwy, roedd 86% o'r dinasyddion yn cytuno ei bod yn bwysig canolbwyntio ar gefnogi economi lwyddiannus.

Mae arwyddion bod economi Pen-y-bont ar Ogwr yn gwella. Mae cyfraddau cyflogaeth ar gyfer pobl sydd rhwng 16 a 64 oed wedi parhau i godi, o 69.8% yn 2012-13 i 69.9% yn 2013-14 ac i 70.1% yn 2014-15. Mae nifer y busnesau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW wedi cynyddu hefyd, o 4,000 yn 2013 i 4,090 yn 2014 ac i 4,440 yn 2015. Gostyngodd y ganran o'r plant sy'n byw mewn aelwydydd lle nad oes unrhyw un yn gweithio o 20.1% yn 2013 i 17.3% yn 2014. Fodd bynnag, mae angen inni wella ymhellach i gyrraedd cyfartaledd Cymru, sef 14.6%. Mae angen inni sicrhau bod ein dinasyddion yn cael budd pellach o economi sy'n gwella ac sy'n gynaliadwy.

## Ein nodau yw:

- Helpu pobl leol i ddatblygu sgiliau a manteisio ar gyfleoedd i lwyddo ac i ymestyn y llwyddiant hwnnw i bob cymuned yn y Fwrdeistref Sirol;
- Creu amodau ar gyfer twf a menter; a hefyd
- Creu canol trefi llwyddiannus.

## Ein prosiectau a rhaglenni allweddol a fydd yn ein helpu i gyrraedd y nodau hyn dros oes y cynllun corfforaethol hwn yw:

**Bargen Ddinesig** – Gan weithio gyda Chynghorau cyfagos yn Ne Ddwyrain Cymru, rydym yn ceisio 'Bargen Ddinesig' gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a allai arwain at fuddsoddiad o oddeutu £1 biliwn mewn prosiectau cyfalaf pwysig ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd dros y 10-15 mlynedd nesaf.

**Adolygiad Strategol o Addysg a Hyfforddiant Ôl 16** – Adolygiad strategol i werthuso'r ddarpariaeth addysg a'r cwricwlwm sydd ar gael gyda Choleg Pen-y-bont i sicrhau bod opsiynau eglur ar gael i ddarparu'r cyfleoedd gorau posibl ar gyfer dysgwyr ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

**Strategaeth i Droi Ysgolion Da'n Ysgolion Gwych** – gan sicrhau bod ein llu o ysgolion da'n dod yn ysgolion rhagorol.

**Rhaglen Economi Lwyddiannus** – cynlluniau adfywio a datblygu lleol allweddol gan gynnwys:

- y cynllun Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid gyda chyllid allanol o £9.6 miliwn, sy'n ailddatblygu Maes Parcio'r Rhiw ym Mhen-y-bont ac yn creu cymuned sy'n byw yng nghanol y dref ei hun trwy drosi lle gwag uwchben siopau'n llety
- Adfywio Porthcawl gan gynnwys cyllid o £0.28 miliwn ar gyfer Llwybr Beicio'r Glannau yn Nhraeth y Rest, Porthcawl a £0.89 miliwn ar gyfer Menter Treftadaeth Treflun Porthcawl (rhwng 2015-16 a 2018-19) i adfywio adeiladau treftadaeth.
- Cyllid o £2.5 miliwn i Adfer Tir ar Safleoedd yng Nghwm Llynfi.

## Yr hyn y byddwn yn ei wneud yn 2016-17:

- Gweithredu prosiectau gyda chyrff yn y sector cyhoeddus a busnesau lleol i ganfod anghenion cyflogwyr o ran sgiliau a dylanwadu ar ddarpariaeth leol;
- Gweithio gyda'r Bartneriaeth Dysgu, Sgiliau ac Arloesi (LSKIP) ranbarthol a hefyd Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor a phrosiectau eraill a arweinir gan CBS Pen-y-bont ar Ogwr i ddatblygu cyfleoedd cyflogaeth (gan gynnwys prentisiaethau a hyfforddeiaethau) a chynllun sgiliau y gellir ei gyflawni'n lleol gyda'n partneriaid, gan gynnwys y coleg, darparwyr hyfforddiant eraill a busnesau lleol;
- Gweithio gydag unigolion a theuluoedd sy'n ddi-waith neu'n economaidd anweithgar, sy'n wynebu rhwystrau i weithio neu sydd mewn perygl o dlodi trwy ddarparu gwasanaethau mentora, hyfforddiant a chymorth arall ym maes cyflogaeth i wella'u cyfleoedd gwaith;
- Gweithredu'r prosiect LEAD (mwy abl a thalentog) gyda phartneriaid i ddatblygu rhaglen i gynorthwyo pobl ifanc â photensial fel arweinwyr i lwyddo;
- Gweithio gydag ysgolion i gau'r bwlch mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim a disgyblion heb hawl i brydau ysgol am ddim a gwella canlyniadau ar gyfer grwpiau agored i niwed;
- Parhau i weithio gydag ysgolion i ddatblygu ystod o opsiynau ar gyfer pobl ifanc sy'n fwy abl a thalentog na'u cyfoedion;
- Cydgysylltu a gweithredu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid i ostwng nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET);
- Gweithio i sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n troi'n 16 mewn addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth nes eu bod yn 24 oed o leiaf yn unol â'r Warant Ieuenctid;
- Gweithio gyda'r holl ysgolion 'Llwybrau Llwyddiant' i gynyddu i'r eithaf y cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu a gwella;
- Cyflawni'r Adolygiad Strategol ar gyfer rhesymoli'r cwricwlwm ac ystadau ysgolion;
- Datblygu a chyflawni Rhaglen Ffocws Buddsoddi Cyrchfan Porthcawl i dyfu gwerth twristiaeth yn yr economi a chynyddu cyfleoedd cyflogaeth a busnes;
- Cyfrannu at ddatblygiad y cynllun busnes ar gyfer Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, gyda'r nod o ddod â mwy o fuddsoddiadau a rheolaeth economaidd i'r ardal leol;
- Gweithio gyda Fforwm Busnes Pen-y-bont ar Ogwr i adolygu cymorth busnes yng nghyd-destun y Fargen Ddinesig a sefydlu strategaeth ddatblygu;
- Datblygu Strategaeth Newid Carbon Isel leol fel rhan o raglen y Sefydliad Technolegau Ynni i sefydlu prosiectau gwresogi lleol ac archwilio cyfleoedd cydweithredol ar gyfer rhaglenni ynni ar sail ranbarthol;
- Buddsoddi yng nghanol ein trefi i wella cyfleusterau presennol a darparu cyfleusterau newydd gan gynnwys cynlluniau yn Harbwr Porthcawl, Maesteg a Phen-y-bont;
- Rhoi cymorth i ddatblygu Ardal Gwella Busnes yng Nghanol Tref Pen-y-bont i helpu masnachwyr lleol i fynd ar drywydd mentrau a phrosiectau sy'n bwysig iddynt hwy; a hefyd
- Cynyddu nifer yr unedau llety preswyl sydd ar gael trwy weithio gyda phartneriaid i ddefnyddio unedau eiddo gwag eto.

## Pwy fydd yn ein helpu?

- Cymdeithasau Tai a Landlordiaid Preifat;
- Fforwm Busnes Pen-y-bont ar Ogwr;
- Coleg Pen-y-bont a darparwyr hyfforddiant;
- Gyrfa Cymru; a hefyd
- Canolfan Byd Gwaith.

## Mae ein gwariant ar y flaenoriaeth hon yn cynnwys:

- Grant Troi Tai'n Gartrefi o £0.6 miliwn;
- Prosiect Pontydd i Waith gwerth £0.5 miliwn; a hefyd
- Prosiect Ysbrydoli i Weithio gwerth £0.35 miliwn.

## Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod yn llwyddo?

### Nod – Helpu pobl leol i ddatblygu sgiliau a manteisio ar gyfleoedd i lwyddo ac i ymestyn y llwyddiant hwnnw i bob cymuned yn y Fwrdeistref Sirol

| Mesur | Gwir. 2013-14 | Gwir. 2014-15 | Cyfartal. Cymru 2014-15 | Targed 2015-16 | Targed 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y cyfranogwyr yr ydym yn disgwyl gweithio gyda hwy dan Cymunedau am Waith, Partneriaeth Sgiliau Cyflogaeth Pen-y-bont ar Ogwr (BESP) a Pontydd i Waith | *Amherthnasol. Dangosydd newydd wedi'i adnabod ar gyfer 2016-17* | | | | 776 |
| Nifer y prentisiaethau a hyfforddeiaethau<br>a) sy'n deillio o raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a phrosiectau eraill a arweinir gan CBS Pen-y-bont ar Ogwr<br>a<br>b) a dderbynnir gan bobl sy'n byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr | *Amherthnasol. Dangosydd newydd wedi'i adnabod ar gyfer 2016-17* | | | | Sefydlu llinell sylfaen* |
| Nifer y cyfranogwyr sy'n cwblhau prosiectau LEAD cymunedol yn llwyddiannus | *Amherthnasol. Dangosydd newydd wedi'i adnabod ar gyfer 2016-17* | | | | 12 |

* Targed i gael ei gadarnhau wrth i'r prosiectau gael eu datblygu.

### Mesurau Addysg

**(Mae ffigyrau ar gyfer cyflawniad addysgol yn ymwneud â'r flwyddyn academaidd flaenorol ac mae canlyniadau gwirioneddol wedi cael eu cynnwys lle dynodir)**

| Mesur | Gwir. 2013-14 | Gwir. 2014-15 | Cyfartal. Cymru 2014-15 | Targed 2015-16 | Targed 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|
| Y ganran o'r ymadawyr Blwyddyn 11 o ysgolion yn yr Awdurdod a adnabuwyd fel rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn Ystadegau Arolygon Cyrchfannau Blynyddol Gyrfa Cymru | 3.7%<br><br>(67 o ymada-wyr) | 3.6%<br><br>(60 o ymada-wyr) | 3.1% | 3.5% | 3.4% |
| Y ganran o'r ysgolion sy'n cwrdd â'r Mesur Dysgu a Sgiliau yng Nghyfnod Allweddol 4 ac Ar Ôl 16 | *Amherthnasol. Dangosydd newydd wedi'i adnabod ar gyfer 2016-17* | | | 100% | 100% |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach ar gyfer disgyblion 17 oed | 806 | 777 | 799.7 | heb ei bennu ar gyfer 15/16 | 810 |
| Y ganran o'r disgyblion Safon Uwch | 96.6% | 97.6% | 97.0% | 96.03% | 98.6% |

| Mesur | Gwir. 2013-14 | Gwir. 2014-15 | Cyfartal. Cymru 2014-15 | Targed 2015-16 | Targed 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|
| sy'n cyflawni'r Trothwy Lefel 3 | | | | | |
| Y ganran o'r disgyblion Safon Uwch sy'n ennill 3 gradd A*-A | 7.1% | 5.3% | 7.9% | heb ei bennu ar gyfer 15/16 | 7.5% |
| Y ganran o'r disgyblion 15 oed, ar y 31 Awst blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a gyflawnodd y Trothwy Lefel 2 gan gynnwys TGAU gradd A* - C mewn Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a mathemateg | 52.3% | 54.8% | 55.5% | 59.7% (Gwir.) | 61.1% |
| Maint y bwlch mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng disgyblion 15+ sydd â hawl i brydau ysgol am ddim a'r rhai nad oes ganddynt hawl (wedi'i fesur yn ôl y dangosydd Lefel 2 cynhwysol) | 31.7% | 36.30% | Mesur lleol | 24% | 23.8% |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog mewn cymwysterau allanol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal 16 oed mewn unrhyw leoliad dysgu a gynhelir gan yr awdurdod lleol | 202 (34 o blant) | 262 (41 o blant) | 276 | 217 (Yn seiliedig ar 23 o blant) | 217* |

*Mae'r targed llonydd yn adlewyrchu ein gwybodaeth am gohort y flwyddyn honno.

### Nod – Creu amodau ar gyfer twf a menter

| Mesur | Gwir. 2013-14 | Gwir. 2014-15 | Cyfartal. Cymru 2014-15 | Targed 2015-16 | Targed 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y busnesau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW/TWE yn y fwrdeistref | 4,090 | 4,440 | Amh. | Cynnydd | Cynnydd |
| Nifer y cynlluniau adeiladau y mae'r awdurdod lleol wedi negodi manteision cymunedol ar eu cyfer | *Amherthnasol. Dangosydd newydd wedi'i adnabod ar gyfer 2016-17* | | | | Sefydlu llinell sylfaen |
| Y ganran o'r boblogaeth o oedran gweithio sydd mewn gwaith | 69.6% | 70.4% | 70.3% | Cynnydd | Cynnydd |

## Nod – Creu canol trefi llwyddiannus

| Mesur | Gwir. 2013-14 | Gwir. 2014-15 | Cyfartal. Cymru 2014-15 | Targed 2015-16 | Targed 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm gwariant blynyddol gan dwristiaid | £289m | £306.62m | Amh. | Cynnydd | Cynnal* |
| Nifer yr ymwelwyr â chanol trefi (nifer yr ymwelwyr ar gyfer Pen-y-bont, Porthcawl) | 5,565,023<br><br>3,135,193 | 5,354,363<br><br>3,975,792 | Dang. lleol | 5,354,363<br><br>3,975,792 | Cynnydd |
| Nifer y safleoedd gwag yng nghanol trefi | Pen-y-bont 65<br>Maesteg 19<br>Porthcawl 17 | Pen-y-bont 55<br>Maesteg 19<br>Porthcawl 17 | Dang. lleol | Pen-y-bont 55<br>Maesteg 19<br>Porthcawl 17 | Pen-y-bont 55<br>Maesteg 19<br>Porthcawl 17* |
| Nifer yr unedau preswyl yng nghanol tref Pen-y-bont sydd wedi<br>(a) cael caniatâd<br>(b) cael eu cwblhau | *Amherthnasol. Dangosydd newydd wedi'i adnabod ar gyfer 2016-17* | | | Ffigwr sylfaen | (a) 8<br>(b) 28 |
| Gwerth ariannol prosiectau adfywio canol trefi a ariannwyd â chyllid allanol sy'n mynd rhagddynt/wrthi'n cael eu datblygu | *Amherthnasol. Dangosydd newydd wedi'i adnabod ar gyfer 2016-17* | | | £18.2m | £23m |

*Bydd yn her cadw'r un targed ar gyfer 2016-17 ac nid yw dan ein rheolaeth ni'n gyfan gwbl.

Targedau dros dro yw'r rhai ar gyfer 2016-17 a gallant newid yng ngoleuni'r canlyniadau gwirioneddol ar gyfer 2015-16.

# Blaenoriaeth Dau – Helpu pobl i fod yn fwy hunanddibynnol

Mae hyn yn golygu y byddwn yn cymryd camau i ostwng nifer y bobl sy'n dod, neu i atal pobl rhag dod, yn agored i niwed neu'n ddibynnol ar y Cyngor a'i wasanaethau.

## Pam fod hyn yn bwysig?

Mae rhoi gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy ar adeg gynnar yn gallu helpu pobl a'u teuluoedd i aros gyda'i gilydd a pharhau i fod yn annibynnol o fewn eu cymunedau. Gwyddom fod plant yn cael budd o amgylchedd teuluol cefnogol sicr a bod y rhan fwyaf o bobl yn hapusach os ydynt yn gallu parhau i fod yn annibynnol ac aros yn eu cartrefi eu hunain am gyhyd â phosibl. Gall cymorth o'r fath ei gwneud yn llai tebygol y bydd eu sefyllfa'n gwaethygu ac y byddant yn dod yn ddibynnol ar wasanaethau'r Cyngor.

Y dull hwn sy'n tanategu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n dod i rym ym mis Ebrill 2016. Mae dull o'r fath yn bwysig nid dim ond i'r rhai ac arnynt angen cymorth gofal cymdeithasol ond hefyd i'r rhai ac arnynt angen ystod lawn o wasanaethau eraill gan y Cyngor. Rydym yn ymrwymedig i roi gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy da i drigolion Pen-y-bont ar Ogwr fel eu bod wedi'u harfogi'n well i reoli sefyllfaoedd eu hunain a bod gwasanaethau'r Cyngor yn gallu canolbwyntio ar y rhai â'r anghenion mwyaf. Dywedodd wyth deg y cant o'r ymatebwyr i'n harolwg y dylem ganolbwyntio ar helpu pobl i ddod yn fwy hunanddibynnol ac y dylem flaenoriaethu gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn, pobl anabl a phlant.

Trwy adeiladu ar ein hanes o weithio gyda'r trydydd sector, y sector dielw a'r sector preifat, gallwn gynorthwyo cymunedau i ddatblygu eu dulliau eu hunain o fynd i'r afael â materion lleol a diwallu anghenion pobl o fewn y gymuned.

## Ein nodau yw:

- Rhoi mwy o ddewis a rheolaeth i bobl o ran pa gymorth y maent yn ei gael trwy ddarparu mynediad cynnar at gyngor a gwybodaeth;
- Lleihau'r galw trwy fuddsoddi mewn rhaglenni wedi'u targedu i roi cymorth ac ymyrryd yn gynnar;
- Cynorthwyo gofalwyr i gynnal eu rolau; a hefyd
- Cynorthwyo'r trydydd sector, cynghorau tref a chymuned a grwpiau cymunedol i ddiwallu anghenion lleol.

## Ein prosiectau a rhaglenni allweddol a fydd yn ein helpu i gyrraedd y nodau hyn dros oes y cynllun corfforaethol hwn yw:

**Ailfodelu Gofal Cymdeithasol:**

- Mae hon yn rhaglen fawr sy'n cynnwys ailgomisiynu gofal cartref i oedolion, datblygu gofal ychwanegol a gwasanaethau gwybodaeth a chynghori i bobl a'u gofalwyr.
- Gan weithio gyda phartneriaid rydym yn creu Canolbwynt Diogelu Amlasiantaeth fel un pwynt cyswllt ar gyfer yr holl bryderon ynghylch diogelu.
- Rydym yn bwrw golwg ar ein modelau presennol o ofal preswyl ar gyfer plant a phobl ifanc a gofal seibiant ar gyfer plant ag anableddau er mwyn eu targedu yn fwy a'u gwneud yn fwy effeithiol.

**Trosglwyddo Asedau Cymunedol** – trosglwyddo asedau i gymunedau er mwyn iddynt eu rheoli gan wneud y gorau o'r asedau yr ydym yn eu cadw.

## Yr hyn y byddwn yn ei wneud yn 2016-17:

- Mynd ati ymhellach i ddatblygu'r arfer o gydgysylltu cymunedau lleol er mwyn galluogi cymunedau i fod yn fwy hunanddibynnol;
- Datblygu mecanweithiau priodol i alluogi'r Cyngor i roi gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy da i'r cyhoedd;
- Cynnwys defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a chymunedau yn y broses o ddatblygu a chomisiynu gwasanaethau;
- Datblygu canolbwynt diogelu amlasiantaeth i ddarparu ymateb amlasiantaeth effeithiol i faterion diogelu;
- Adolygu ac ystyried modelau newydd i ddarparu gwasanaethau ar gyfer gofal seibiant a phreswyl er mwyn sicrhau cymorth a gwasanaeth hyblyg ar gyfer pobl pan fo'u hangen arnynt;
- Datblygu model gwasanaeth priodol ar gyfer plant sy'n pontio o blentyndod i fywyd fel oedolion, gan gynnwys plant ag anableddau a phlant sy'n gadael gofal;
- Sicrhau bod gwasanaethau priodol ar gael i blant sydd mewn perygl o ddioddef camfanteisio rhywiol ar blant;
- Cymryd camau rhesymol i helpu i atal digartrefedd, trwy ymyrryd yn gynnar, a chydweithrediad gan yr aelwyd;
- Rhoi cymorth i deuluoedd trwy'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf er mwyn helpu i leihau tlodi plant;
- Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau yr eir ati'n gynnar i adnabod plant a theuluoedd ac arnynt angen cymorth;
- Gweithio gyda phartneriaid ac ysgolion i gefnogi gofalwyr trwy roi'r wybodaeth, cyngor a chynhorthwy cywir lle y bo'n berthnasol;
- Datblygu gallu'r trydydd sector trwy ddod o hyd i ffyrdd newydd o gydweithio; a hefyd
- Galluogi grwpiau cymunedol a'r trydydd sector i fod â mwy o lais a rheolaeth dros asedau cymunedol.

## Pwy fydd yn ein helpu?

- Bwrdd Iechyd PABM;
- Partneriaid yn y Trydydd Sector;
- Partneriaid Bae'r Gorllewin;
- Heddlu De Cymru;
- Safeguarding G Plus;
- Ysgolion;
- Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig;
- Canolfan Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr; a hefyd
- Pobl sy'n cael gwasanaethau a'u gofalwyr a'u teuluoedd.

## Mae ein gwariant ar y flaenoriaeth hon yn cynnwys:

- Model byw â chymorth ar gyfer anableddau dysgu gwerth £369,000; a hefyd
- Y Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf sy'n werth £1.8 miliwn.

## Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod yn llwyddo?

### Nod – Lleihau'r galw trwy fuddsoddi mewn rhaglenni wedi'u targedu i roi cymorth ac ymyrryd yn gynnar

| **Mesur** | **Gwir. 2013-14** | **Gwir. 2014-15** | **Cyfartal. Cymru 2014-15** | **Targed 2015-16** | **Targed 2016-17** |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y cysylltiadau priodol â'r Canolbwynt Diogelu Amlasiantaeth | *Amherthnasol. Dangosydd newydd wedi'i adnabod ar gyfer 2016-17* | | | | Sefydlu llinell sylfaen* |
| Y ganran o'r derbyniadau digartrefedd dyletswydd derfynol fel cyfran o'r holl achosion o ddigartrefedd sy'n dod i sylw | 44.56% | 32.43% | 35.80% | 23.60% | 17.18% |
| Y ganran o'r plant a gafodd gymorth i barhau i fyw o fewn eu teulu | *Amherthnasol. Dangosydd newydd wedi'i adnabod ar gyfer 2016-17* | | | | 65% |
| Am faint o amser ar gyfartaledd y caiff pobl hŷn (65 oed a throsodd) eu cefnogi mewn cartrefi gofal preswyl | *Amherthnasol. Dangosydd newydd wedi'i adnabod ar gyfer 2016-17* | | | | 1055 |
| Oedran cyfartalog oedolion sy'n mynd i mewn i gartrefi gofal preswyl | *Amherthnasol. Dangosydd newydd wedi'i adnabod ar gyfer 2016-17* | | | | 84 oed |
| Y ganran o'r plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn | 9.0% | 11.8% | 9.0% | 12% | 12%** |
| Y ganran o'r plant mewn ardaloedd Dechrau'n Deg a gyrhaeddodd eu cerrig milltir o ran eu datblygiad, a aeth y tu hwnt iddynt neu sydd o fewn un band oedran iddynt pan ydynt yn 3 oed | 72% | 77% | 81% | 82% | 82%*** |

*Bydd angen llinell sylfaen ar gyfer mesurau newydd dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant cyn y gellir pennu targed. Byddwn yn adolygu targedau wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi.
**Mae'r targed llonydd yn adlewyrchu ein gwybodaeth am y plant sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd a'r heriau o ran lleoli plant hŷn.
***Mae'r targed ar gyfer 2016-17 yn aros yr un fath gan na fydd y broses o ehangu'r rhaglen wedi digwydd tan yn hwyr yn y flwyddyn ac felly ni fydd y plant teirblwydd oed ychwanegol wedi gallu cael budd.

## Nod – Rhoi mwy o ddewis a rheolaeth i bobl o ran pa gymorth y maent yn ei gael trwy ddarparu mynediad cynnar at gyngor a gwybodaeth

| Mesur | Gwir. 2013-14 | Gwir. 2014-15 | Cyfartal. Cymru 2014-15 | Targed 2015-16 | Targed 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer yr a) oedolion a'r b) plant a gafodd gyngor a chynhorthwy gan y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy yn ystod y flwyddyn | *Amherthnasol. Dangosydd newydd wedi'i adnabod ar gyfer 2016-17* | | | | Sefydlu llinell sylfaen* |
| Y ganran o'r bobl sy'n dweud eu bod yn teimlo iddynt gael eu cynnwys mewn unrhyw benderfyniadau a wnaed ynghylch eu gofal a'u cymorth | *Amherthnasol. Dangosydd newydd wedi'i adnabod ar gyfer 2016-17* | | | | 70% |
| Nifer y bobl sy'n dweud iddynt gael gwybodaeth a chyngor cywir pan oedd eu hangen arnynt | *Amherthnasol. Dangosydd newydd wedi'i adnabod ar gyfer 2016-17* | | | | Sefydlu llinell sylfaen |
| Nifer y bobl sy'n fodlon ar y gofal a'r cymorth a gawsant | *Amherthnasol. Dangosydd newydd wedi'i adnabod ar gyfer 2016-17* | | | | Sefydlu llinell sylfaen |
| Y ganran o'r oedolion a gwblhaodd gyfnod o ailalluogi a, chwe mis yn ddiweddarach:<br>a) sydd â phecyn llai o ofal a chymorth neu<br>b) sydd heb becyn gofal a chymorth | *Amherthnasol. Dangosydd newydd wedi'i adnabod ar gyfer 2016-17* | | | | Sefydlu llinell sylfaen* |

*Bydd angen llinell sylfaen ar gyfer mesurau newydd dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant cyn y gellir pennu targed. Byddwn yn adolygu targedau wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi.

## Nod - Cynorthwyo gofalwyr i gynnal eu rolau

| Mesur | Gwir. 2013-14 | Gwir. 2014-15 | Cyfartal. Cymru 2014-15 | Targed 2015-16 | Targed 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y bobl a gynorthwywyd trwy grant cyfleusterau i'r anabl i'w helpu i barhau i fod yn annibynnol | 176 | 150 | Dang. Lleol | 193 | I'w gadarnhau * |
| Nifer yr asesiadau o anghenion ar gyfer cymorth i ofalwyr a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn ac i) o'r rheiny, y nifer a arweiniodd at gynllun cymorth | *Amherthnasol. Dangosydd newydd wedi'i adnabod ar gyfer 2016-17* | | | | 35 |

*Targed i gael ei gadarnhau

## Nod - Cynorthwyo'r trydydd sector, cynghorau tref a chymuned a grwpiau cymunedol i ddiwallu anghenion lleol

| Mesur | Gwir. 2013-14 | Gwir. 2014-15 | Cyfartal. Cymru 2014-15 | Targed 2015-16 | Targed 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y grwpiau cymunedol sy'n defnyddio pecynnau cymorth i reoli asedau a drosglwyddwyd | *Amherthnasol. Dangosydd newydd wedi'i adnabod ar gyfer 2016-17* | | | | Sefydlu llinell sylfaen* |
| Nifer yr oedolion a gafodd wasanaeth a ddarparwyd trwy fenter gymdeithasol, cwmni cydweithredol, gwasanaeth a arweinir gan ddefnyddwyr neu fudiad yn y trydydd sector yn ystod y flwyddyn | *Amherthnasol. Dangosydd newydd wedi'i adnabod ar gyfer 2016-17* | | | | Sefydlu llinell sylfaen |
| Strategaeth y Trydydd Sector | *Amherthnasol. Dangosydd newydd wedi'i adnabod ar gyfer 2016-17* | | | | Yn ei lle |
| Siarter Cynghorau Tref a Chymuned | *Amherthnasol. Dangosydd newydd wedi'i adnabod ar gyfer 2016-17* | | | | Yn ei lle |

* Rydym yn dal wrthi'n adnabod pa asedau allai gael eu trosglwyddo felly mae'n rhy gynnar i bennu targed ar gyfer cymorth.

Targedau dros dro yw'r rhai ar gyfer 2016-17 a gallent newid yng ngoleuni'r canlyniadau gwirioneddol ar gyfer 2015-16. Eleni cyflwynir mesurau newydd dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a chyflwynir System Gwybodaeth Gofal Cymunedol newydd ar gyfer Cymru. Rydym wedi pennu targedau lle y bo'n bosibl; fodd bynnag, ar gyfer rhai bydd angen inni sefydlu llinell sylfaen cyn y gellir pennu targed. Byddwn yn adolygu targedau wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi.

## Blaenoriaeth Tri – Defnyddio adnoddau'n ddoethach

Mae hyn yn golygu y byddwn yn sicrhau bod ein holl adnoddau (yn rhai ariannol, ffisegol, dynol a thechnolegol) yn cael eu defnyddio mor effeithiol ac effeithlon â phosibl ac yn rhoi cymorth i ddatblygu adnoddau ledled y gymuned a all helpu i wireddu blaenoriaethau'r Cyngor.

### Pam fod hyn yn bwysig?

Dros y pedair blynedd nesaf bydd yn rhaid i'r Cyngor gyflawni gostyngiad o fwy na £35 miliwn yn y gyllideb. Eleni, fel mewn blynyddoedd blaenorol, rydym yn ymrwymedig i ddod o hyd i o leiaf 50% o'r ffigwr hwn trwy ddefnyddio adnoddau'n ddoethach, ac felly leihau effaith y gostyngiadau ar wasanaethau. Wrth i'r cynni cyllidol barhau mae'n dod yn anos cyflawni gostyngiadau pellach yn y gyllideb bob blwyddyn, ond rydym yn parhau i geisio ffyrdd o weithio a fydd yn arbed arian inni, yn bennaf trwy ddefnyddio ein hadeiladau, ein pobl a'n gwariant yn ddoethach.

Yn ein hymgynghoriad â'r cyhoedd canfuom fod 76% (825 o ymatebwyr) yn cytuno eu bod yn fodlon i rai o wasanaethau'r Cyngor gael eu darparu gan sefydliadau eraill. Darparu gwasanaethau ar-lein oedd y mesur mwyaf poblogaidd yn yr ymgynghoriad ar gyfer gostwng y gyllideb. Fe ofynnon ni hefyd am awgrymiadau eraill am ffyrdd y gallai'r Cyngor arbed arian yn y dyfodol. O'r ymatebion a gafwyd, yr awgrym mwyaf poblogaidd, a nodwyd gan 225 o ymatebwyr, oedd lliflinio'r Cyngor, ein gweithlu, ein swyddfeydd a'n prosesau. Byddwn yn gwneud y pethau hyn, a mwy, i sicrhau bod y Cyngor yn defnyddio'i adnoddau'n ddoethach.

### Ein nodau yw:

- Cyflawni'r gostyngiadau yn y gyllideb a nodir yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig;
- Gwella effeithlonrwydd gwasanaethau a mynediad atynt trwy ailddylunio ein systemau a'n prosesau;
- Gwneud y gorau o'n hasedau ffisegol, gan gynnwys adeiladau ysgolion;
- Datblygu'r diwylliant a'r sgiliau y mae eu hangen i ddiwallu anghenion sefydliad sy'n newid; a hefyd
- Gwneud y gorau o'n gwariant ar nwyddau a gwasanaethau.

### Ein prosiectau a rhaglenni allweddol a fydd yn ein helpu i gyrraedd y nodau hyn dros oes y cynllun corfforaethol hwn yw:

**Y Rhaglen Trawsnewid Digidol –** newid y ffordd yr ydym yn gweithredu i alluogi cwsmeriaid i gael mynediad at wybodaeth, cyngor a gwasanaethau ar-lein.

**Rhesymoli ystâd y Cyngor –** gwaredu asedau, trosglwyddo asedau i gymunedau eu rheoli a gwneud y gorau o'r asedau y byddwn yn eu cadw.

**Y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion –** buddsoddi mewn cyfundrefn addysg gynaliadwy mewn adeiladau ysgolion sy'n lleihau costau a'u hôl troed carbon.

**Y Rhaglen Gaffael –** mynd ar drywydd cyfleoedd ac arferion newydd i gynyddu i'r eithaf y budd yr ydym yn ei gael pan ydym yn prynu nwyddau a gwasanaethau.

**Y Rhaglen Fasnacheiddio** – adnabod y cyfleoedd ar gyfer creu incwm ychwanegol i gefnogi a diogelu gwasanaethau craidd.

## Yr hyn y byddwn yn ei wneud yn 2016-17:

- Gweithredu'r gostyngiadau arfaethedig i'r gyllideb a nodwyd yng nghyllideb 2016-17;
- Adnabod a bwrw ymlaen ag o leiaf dair menter newydd i greu incwm.
- Datblygu ystod o wasanaethau awtomataidd ac ar-lein sy'n hawdd i ddinasyddion eu defnyddio;
- Gwneud y rhan fwyaf o brosesau mewnol cyffredin yn rhai awtomatig er mwyn lleihau costau trafodion a lliflinio prosesau;
- Gwella ein dealltwriaeth am farn dinasyddion trwy ddatblygu a hyrwyddo mecanweithiau sy'n cynyddu nifer yr ymatebion i ymgyngoriadau;
- Adolygu meddalwedd a systemau cyfreithiol a rheoleiddiol er mwyn lliflinio prosesau busnes;
- Gweithredu cam nesaf y Cydwasanaeth Rheoleiddio wedi'i ailfodelu;
- Adolygu asedau a gwasanaethau a'i gwneud yn bosibl trosglwyddo'r rhai mwyaf addas i grwpiau a mudiadau cymunedol;
- Cynorthwyo rheolwyr i arwain staff trwy newid sefydliadol;
- Darparu'r cyfleoedd dysgu a datblygu ar gyfer staff i ddiwallu anghenion gwasanaethau yn y dyfodol;
- Darparu ysgolion newydd a gwell trwy gyflawni'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt dan y rhaglen moderneiddio ysgolion;
- Rhesymoli ystâd weinyddol y Cyngor ymhellach er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu o un swyddfa graidd erbyn mis Mawrth 2017;
- Cyflawni'r rhaglen gwaredu asedau estynedig er mwyn cyflawni derbyniadau cyfalaf o £4 miliwn erbyn mis Mawrth 2017;
- Trefnu bod safle Tre-dŵr ar gael i'w farchnata ar gyfer datblygiad tai fel rhan o gynllun Parc Afon Ewenni;
- Gweithredu mesurau lleihau ynni a charbon a hybu arfer da yn ein holl adeiladau cyhoeddus i'w helpu i leihau eu hôl troed carbon a chyflawni gostyngiad o 3% mewn allyriadau carbon; a hefyd
- Ailstrwythuro'r broses gaffael a monitro ein cofrestr o gontractau corfforaethol er mwyn sicrhau y cyflawnir y gwerth gorau trwy e-gaffael a'r fframwaith contractau.

## Pwy fydd yn ein helpu?

- Cyflogeion;
- Ysgolion;
- Contractwyr; a hefyd
- Undebau Llafur.

## Mae ein gwariant a'n harbedion ar y flaenoriaeth hon yn cynnwys:

- Y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – cyllid cyfalaf o £31.9 miliwn (*2016-20*);
- Rhesymoli'r ystâd weinyddol i arbed £290,000 y flwyddyn;
- Incwm o £4 miliwn o waredu asedau yn 2016-17;
- Ailfodelu'r Cydwasanaeth Rheoleiddio i arbed £181,000 yn 2016-17; a hefyd
- Cyfanswm o £7.495 miliwn mewn arbedion rheolaidd rhagamcanol yn 2016-17.

## Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod yn llwyddo?

### Nod - Cyflawni'r gostyngiadau yn y gyllideb a nodir yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig

| Mesur | Gwir. 2013-14 | Gwir. 2014-15 | Cyfartal. Cymru 2014-15 | Targed 2015-16 | Targed 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|
| Y ganran o'r gostyngiadau yn y gyllideb a gyflawnwyd | 95.3% | 92.5% | Amh. | 100% | 100% |
| Nifer y mentrau creu incwm newydd sydd yn eu lle a'r incwm a grëwyd | 9 menter newydd dros y cyfnod o 3 blynedd, yn creu rhyw £1.511m dros y cyfnod o 3 blynedd. | | | | 3 menter newydd |

### Nod - Gwella effeithlonrwydd gwasanaethau a mynediad atynt trwy ailddylunio ein systemau a'n prosesau

| Mesur | Gwir. 2013-14 | Gwir. 2014-15 | Cyfartal. Cymru 2014-15 | Targed 2015-16 | Targed 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y gwasanaethau sydd ar gael i'r cyhoedd ar-lein | *Amherthnasol. Dangosydd newydd ar gyfer 2016-17* | | | | 6 |
| Y ganran o gwsmeriaid y Dreth Gyngor sy'n defnyddio'r gwasanaeth ar-lein trwy 'fy nghyfrif' | 0% | 0% | Amh. | 0% | 30% |
| Nifer y rhyngweithiadau gan ddinasyddion ar y cyfrifon corfforaethol yn y cyfryngau cymdeithasol (Facebook a Twitter) | Data heb ei gasglu | | Amh. | Sefydlu llinell sylfaen | Cynnydd o 10% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol |

### Nod - Gwneud y gorau o'n hasedau ffisegol, gan gynnwys adeiladau ysgolion

| Mesur | Gwir. 2013-14 | Gwir. 2014-15 | Cyfartal. Cymru 2014-15 | Targed 2015-16 | Targed 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|
| Proffil gwariant y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion wedi'i fodloni | £0.797 m | £5.677 m | Amh. | £7.112m | £7.510m |
| Gostyngiad yng nghostau rhedeg asedau gweithredol | £34,277 | £89,290 | Amh. | £400,000 | £195,000 |
| Cymhareb o ran staff i ddesgiau yn y Swyddfeydd Dinesig | Data ddim ar gael | | Amh. | Amh. | 3:2 |
| Cyrraedd y targed ar gyfer derbyniadau cyfalaf | £193k | £4.2m | Amh. | £6m | £4m |

| Mesur | Gwir. 2013-14 | Gwir. 2014-15 | Cyfartal. Cymru 2014-15 | Targed 2015-16 | Targed 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gostyngiad canrannol mewn allyriadau carbon o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol | 6% | 11% | Amh. | 3% | 3%* |
| Sgôr gweithredol cyfartalog am berfformiad ynni ar Dystysgrifau Ynni i'w Harddangos ar gyfer adeiladau dros 1000m$^2$ | 89.48 | 84.21 | 86.5 | 85.72 | 85.72** |
| Nifer yr asedau o eiddo'r Cygnor a drosglwyddwyd i'r gymuned eu rhedeg | *Amherthnasol. Dangosydd newydd ar gyfer 2016-17* | | | | 5 |

* Targed llonydd a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.

** Targed i'w osod yn dilyn datganiad alldro 2015-16.

## Nod - Datblygu'r diwylliant a'r sgiliau y mae eu hangen i ddiwallu anghenion sefydliad sy'n newid

| Mesur | Gwir. 2013-14 | Gwir. 2014-15 | Cyfartal. Cymru 2014-15 | Targed 2015-16 | Targed 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y diwrnodau/sifftiau gwaith am bob cyflogai cyfwerth ag amser llawn (CALl) yn yr awdurdod lleol a gollwyd o ganlyniad i absenoldeb oherwydd salwch | 9.8 | 10.83 | 9.9 | 8.5 | 8.5* |
| Y ganran o'r cyflogeion sy'n cwblhau modiwlau e-ddysgu | Data heb ei gasglu yn y blynyddoedd hyn | | Amh. | 24% | 40% |
| Nifer y rheolwyr sy'n cael hyfforddiant i wella'u sgiliau rheoli pobl (gan gynnwys rheoli absenoldeb) | Amh. | Amh. | Amh. | Dang. newydd (235 wedi cwblhau) | 200 |
| Nifer y cyflogeion sy'n cael hyfforddiant i wella sgiliau iaith Gymraeg | Amh. | Amh. | Amh. | Dang. newydd (173 wedi cwblhau) | 150 |

*Bydd y targed llonydd ar gyfer 2016-17 yn dal yn her o ystyried ein gwybodaeth am ddatganiadau ar gyfer rhan o'r flwyddyn yn 2015-16.


## Nod - Gwneud y gorau o'n gwariant ar nwyddau a gwasanaethau

| Mesur | Gwir. 2013-14 | Gwir. 2014-15 | Cyfartal. Cymru 2014-15 | Targed 2015-16 | Targed 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|
| Y ganran o'r tendrau uwchlaw trothwy'r UE yn unol â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 sy'n cydymffurfio | *Amherthnasol. Dangosydd newydd ar gyfer 2016-17* | | | | 100% |


Targedau dros dro yw'r rhai ar gyfer 2016-17 a gallant newid yng ngoleuni'r canlyniadau gwirioneddol ar gyfer 2015-16.

**Atodiad – Amlinelliad o'n hincwm a'n gwariant**

**CYLLIDEB REFENIW GROS AR 18.2.2016**



## 2016-17 Ble y Bydd yr Arian yn Cael Ei Wario




Sylwer: Mae **Swyddogaethau Corfforaethol** yn cynnwys Costau Cyllid Cyfalaf, Praeseptau ac Ardollau, Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a darpariaeth gorfforaethol ar gyfer cyflog a phrisiau